YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
CYF. 43. RHIF 2 GORFFENNAF 2021 50c

# TRO I SALEM, CEFN CYMERAU

Mae'n debyg y byddai'r mwyafrif ohonom yn adnabod capel wrth ei ffasâd - ond nid yw hyn yn wir gyda chapel Y Bedyddwyr Salem yn Cefn Cymerau, Llanbedr. Y tu mewn syml a diymhongar yn Salem, Cefn Cymerau sy'n ei gwneud yn un o gapeli mwyaf adnabyddus Cymru. Mewn gwirionedd roedd golygfa o'i thu mewn yn addurno llawer o gartrefi Cymru, yn ogystal ag rhai ym Mhrydain yn ystod yr ugeinfed ganrif.

'Salem' yw enw darlun o'r gapel bach a paentiwyd gan yr arlunydd enwog Sidney Curnow Vosper yn 1908.

Prynwyd 'Salem' gan yr Arglwydd Leverhulme, perchenog cwmni Lever Brothers, ym 1909 am gant gini (£105). Daeth y darlun yn boblogaidd ac anfarwolwyd Salem ar ol ir llun gael ei ddefnyddio i farchnata sebon 'Sunlight Soap'. Roedd cwsmeriaid yn casglu tocynnau o'r pacedi, ac am bob 7lbs o sebon a brynwyd roedd y prynwyr yn medru hanfon y tocynnau at y cwmni i sicrhau copi o'r darlun. O ganlyniad felly, dosbarthwyd y llun yn eang ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r llun gwreiddiol o'r paentiad hwn bellach yn hongian yn Oriel Gelf Lady Lever sydd ym mhentref gardd Port Sunlight, yng Cilgwri.

Nid dyma'r unig lun o 'Salem' a baentiodd Vosper. Cafodd ail fersiwn y paentiad, sydd â mân wahaniaethau, ei beintio flwyddyn yn ddiweddarach (1909) ar gyfer Frank James, brawd-yng-nghyfraith yr arlunydd. Mae'r llun hwn bellach yng ngofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i prynodd yn 2019.

Mae'r ddau baentiad yn ddiddorol iawn. Mae'n ymddangos eu bod yn darlunio gwasanaeth sy'n digwydd yn y capel. Dyna roedd Vosper eisiau ei gyfleu, ond nid oedd gwasanaeth go iawn.



*Capel Salem - Cefn Cymerau*

Llwyfannwyd y paentiad gyda'r cymeriadau'n cael eu talu 6 cheiniog yr awr am eistedd am y llun.

Dim ond un o'r ffigurau oedd mewn gwirionedd yn aelod o'r capel, Robert Williams o Gaer Feddyg, saer, ffermwr a diacon yng Nghapel Salem, gellir ei weld pellaf i'r chwith o dan y cloc. Wrth ei ymyl, ac ychydig yn aneglur mae Laura Williams o Ty'n-y-Buarth, Llanfair. Chwith ohoni, gyda'i gefn yn erbyn y wal, mae Owen Jones (a elwir yn gyffredin Owen Siôn) o Carleg Coch. Y bachgen bach yw Evan Edward Lloyd ac wrth ei ochr mae Mary Rowland. Ar y dde eithafol gyda'i ben wedi ymgrymu, mae William Jones (William Siôn), brawd Owen.

*(parhad ar dudalen 3)*



*Salem' – Curnow Vosper (1908)*



*'Salem' – Curnow Vosper (1909)*

Golygyddol

# Y DEYRNAS UNEDIG??

## – gan D. Ben Rees

Y mae'r Llywodraeth bresennol ynghyd â'r Blaid Lafur Brydeinig a'r Rhyddfrydwyr yn ofnus dros ben fod dyddiau y Deyrnas Unedig ar fin ddod i ben gan fod y Blaid Genedlaethol yn yr Alban mor bwerus. O dan Nicola Sturgeon mae cenedlaetholwyr yr Alban yn bell ar y blaen ar bawb arall.




*Nicola Sturgeon*

Ar un adeg y Blaid Lafur oedd y blaid gryfaf o bell ffordd ond methodd y blaid honno a thorri llwybr iddi ei hun gan fynnu fod yn ddarostyngedig i'r Blaid Lafur Brydeinig. Gofalodd Rhodri Morgan a Carwyn Jones na fyddai hynny yn digwydd yng Nghymru ac am hynny llwyddodd Llafur i fod yn Blaid Lafur Gymreig. Gofalodd Mark Drakeford fod y traddodiad hwnnw yn parhau ac yn ystod cyfnod y pandemig dangosodd ef i'r Deyrnas Unedig ei fod yn wleidydd solet, cadarn ei safiad, ac yn feirniadol dros ben o aml i weithred o eiddo y Llywodraeth Dorïaidd. Dangosodd fod y Llywodraeth honno sydd yn meddu ar fwyafrif llethol yn anghodus o Gymru a'i thrigolion.

Dangosodd Drakeford a'r gweinidogion eraill fel Vaughan Gething a Jeremy Miles fod gofalu am Gymru yn un o'i blaenoriaethau. Talodd hyn ar ei ganfed yn yr etholiad ar Mai 6 pan enillodd y Blaid Lafur 30 sedd fel y gallant lywodraethu heb ddibynnu ar Blaid Cymru na'r Rhyddfrydwyr. Gwnaeth y Torïaid yn dda i gymharu â Phlaid Cymru.



*Mark Drakeford – gwleidydd solet, cadarn ei safiad*



Methodd Adam Price a thorri drwodd a gwelodd Llafur yn ennill y Rhondda yn ôl gyda Leanne Wood, ar ôl deunaw mlynedd yn y Cynulliad, yn ffarwelio am y tro â'r bywyd cyhoeddus. Yn Lloegr methodd Syr Keir Starmer â thorri trwodd ac yn y wlad hon Boris Johnson yw arwr y dosbarth gweithiol. Gwelid hynny yn is-etholiad yn Hartlepool. Dylai Starmer fod wedi gofalu cael ymgeisydd oedd o blaid Brexit a phwyso ar i'r is-etholiad gael ei gynnal ar ddiwrnod gwahanol. Mae'n ddwl fod pobl yn ei feio ef am fethu gofalu ar ôl seddau fel Hartlepool pan gofir fod y Torïaid wedi bod mewn grym am 11 mlynedd!!! Hwy oedd wedi esgeuluso y seddau hyn ond Starmer a gafodd y bai! Trasiedi y Blaid Lafur yw ei bod yn brin o arweinwyr yn y rheng flaenaf. Yr unig Gymro sydd yn y rheng flaenaf yw Nick Symonds-Thomas, A.S. Torfaen, ciliodd Stephen Kinnock, Aberafan i'r cysgodion ac nid oes swydd ganddo ef. Ni ellir dweud fod neb arall yn Senedd San Steffan o Gymru i gymharu gyda Mark Drakeford.

Mae'n ddiddorol fod rhai a gofleidiodd datganoli fel Tony Blair a Gordon Brown yn credu y byddai gosod Senedd yng Nghaeredin a Chaerdydd yn lladd cenedlaetholdeb. Methodd hynny o bell ffordd, a dangosodd etholiad 2021 fod gwahaniaeth dybryd rhwng y gwledydd.

Yng Nghymru, Llafur yw'r blaid gryfaf, yn yr Alban SNP, yng Ngogledd Iwerddon DUP ond yn colli tir yn ddybryd, ac yn Lloegr y Ceidwadwyr. Gwelaf o fewn pymtheg mlynedd y bydd y Deyrnas Unedig wedi dod i ben ei thenyn os na wneir rhywbeth pwysig ar fyrder. I bob pwrpas mae'r Alban yn wlad annibynnol ar hyn o bryd. Mae ganddi ei chyfraith ei hun, a Swyddfa ganolog sydd yno ers degawdau, a hawliau sydd yn gwneud llywodraeth yr Alban yn rhydd o hualau San Steffan. Ni ellir gwrthod caniatau refferendwm ar annibyniaeth yn 2023 i'r Alban neu cyn hynny a phan ddaw bydd yr Alban yn gosod ei stamp ei hun ar y sefyllfa. Cyn bo hir fe ddaw refferendwm i Ogledd Iwerddon oherwydd yn 2022 bydd cryn newid yn Stormont a gwelir DUP yn colli tir dybryd.

Fe welwn cyn 2030 Iwerddon Unedig gyda'r Protestaniaid yn y Gogledd yn mwynhau breintiau bod unwaith yn rhagor o fewn Ewrop. Mae ymgyrch 'Ie Cymru' yn cryfhau o fis i fis ac fe ddaw refferendwm i Gymru tua 2035. Yr adeg honno bydd Lloegr ar ei phen ei hun. Mae'n ddigon mawr i fodoli heb yr Alban a Chymru a Gogledd Iwerddon.

Bydd y Blaid Geidwadol yn ddigon bodlon ar bethau. Gall yn y deunaw mis nesaf feddwl am fodel *federal*. Gallai hynny gadw'r undeb yn fyw am ddegawdau i ddod. Amser a ddengys.

# Tro i Salem, Cefn Cymerau

*(parhad o'r dudalen flaen)*

Mae hynny'n gadael dau gymeriad. Y prif ffigwr yw Siân Owen o Ty'n-y-Fawnog ar y gefnffordd o Lanbedr, sydd i'w gweld yn cerdded i lawr tuag at sedd y teulu. Ganwyd Sian ym Maesygarnedd ym 1837, ac ar adeg paentio roedd hi'n 71 oed Bu Siân Owen ei hun yn byw tan 1927, a chladdwyd hi ym mynwent Llanfair, Harlech.



***Tu fewn i Capel Salem (2010)***

Y ffigwr arall (yr ail dde i Siân Owen ac yn gwisgo het Gymraeg) yw "Leusa Jones", wel dyna'r hyn a alwodd Vosper hi. Mewn gwirionedd nid oedd hi'n berson o gwbl, roedd hi'n ddymi teiliwr a oedd wedi'i fenthyg.

Nid dyna'r unig beth a fenthycwyd. Roedd yr het Gymraeg yn ffasiwn a oedd yn gyfredol yn y 1830au a'r 40au ond erbyn y paentiad, nid oedd menywod yng Nghymru bellach yn gwisgo hetiau o'r math, ac ni fyddai gwisgo hetiau y tu mewn i gapel wedi bod y weddus, yn enwedig i ferched. Roedd Vosper, fodd bynnag, eisiau i'r menywod wisgo hetiau pibell stôf draddodiadol ond dim ond un het y gallent ddod o hyd iddi yn yr ardal i fenthyca a symudwyd ef o'r naill i'r llall pan oedd angen.


Y brif wisg yn y llun yw siôl Siân Owen ac roedd hon hefyd yn eitem a fenthycwyd gan Mrs Williams, oedd yn byw yn Ficerdy Harlech.



***'Market Day in Old Wales' – Curnow Vosper (1910)***

Mae pam y dewisodd Vosper Siân fel y prif gymeriad yn aneglur, ond gweithiodd gyda Siân Owen eto yn y llun 'Market Day in Old Wales' (1910) sydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Wrth siarad am y cymeriadau yn y llun mae yna un person diddorol a ddylai fod wedi bod yn y llun ond heb ymddangos. Evan Rowlands mab Mary Rowlands, a chefnder i Evan Edward Lloyd, sydd yn y llun. Roedd Evan yn digwydd bod adref ar ei wyliau o ysgol i'r ddeillion (ysgol breswyl) ar y pryd ag mi roedd yno wrth i'r paentio cael ei wneud, ond gan iddo fethu eistedd yn llonydd ddigon hir i gael paentio ei lun, ni ymddangosodd. Fe adnabyddir Evan yn ddiweddarach fel y Parch. Evan Edward Rowlands o Ddolgellau (y pregethwr dall).



***Y Parch. Evan Edward Rowlands***

Wedi ei eni ym mythynnod Glan Afan yn Nolgellau yn 1901, fe fu'n byw yn yr ardal y rhan fwyaf o'i oes. Bu'n byw am gyfnod yn Maesgwm, y Ganllwyd, a chafodd addysg yn ysgol y deillion yn Lerpwl ac Edgbaston lle dysgodd i ddarllen Braille yn y ddwy iaith, ac ymlaen i Goleg Bala-Bangor. Ordeinwyd ef i'r Weinidogaeth Annibynnol yn 1927 a bu'n pregethu am 60 mlynedd, er na chafodd erioed ofalaeth eglwys. Bu'n briod a'i wraig gyntaf Nancy (Annie Goodman) am 43 mlynedd, ac yna i Rosalind tan ei farwolaeth yn 1976. Fe'i claddwyd ym mynwent Dolgellau.

***David Williams (Karslake).***

## DARLITHIAU

zoom

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL A DOSBARTH CYMRAEG BETHEL**

Cynhelir tair darlith yr haf hwn sef

1) Nos Lun, 7 Mehefin am 7.30
**Cefndir a Chyfraniad John Thomas, ffotograffydd Lerpwl**
gan y Dr. D. Ben Rees.
Llywydd: Dr. John G. Williams

2) Nos Lun, 19 Gorffennaf am 7.30
**Darlith ar y Ddau Ddoctor:**
**Hugh Owen Thomas ac Owen Thomas, Lerpwl**
gan Dr. D. B. Rees.
Llywydd:

3) Nos Lun, 16 Awst am 7.30
**Y Gwyddelod yn Lerpwl.**
Llywydd:

*Croeso i bawb wrando a gweld ac ymuno yn y drafodaeth*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Da clywed bod Mrs Menna Edwards, Blundellsands wedi dychwelyd o Ysbyty Fazarkley ac anfonwn ein cofion anwylaf ati gan ei bod hi a'i diweddar briod J. Alun Edwards wedi bod yn fawr ei gyfraniad i'n tystiolaeth yn Waterloo. Clywsom hefyd oddi wrth Mrs Gwyneth Griffith, sgutor ewyllys y diweddar William Glyn Thomas ei fod ef wedi gadael fel cymunrodd y swm o £200 i'r Capel. Dengys hyn gymaint a olygai y blwch ennaint yn Stanley Road a Bethania, iddo er i'r amgylchiadau ei rwystro yn y blynyddoedd olaf i ddod atom fel y carem.

Cawn ein cysuro yn fawr yn yr oedfaon a gynhelir ar *zoom* gan ein Gweinidog, y Parchedig Robert Parry a'r Athro Barchedig D. Ben Rees. Edrychwn ymlaen i ddau Sul cyntaf mis Mehefin pan gawn gyfle i wrando ar y Parchedigion Olaf Davies, Llangadfan a Gwenda Richards, Caernarfon. Dyma'r troeon cyntaf i ni gael cenhadon o Gymru i'n harwain ar lwybr addoliad.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Diolchwn Nefol Dad,*
*Am ddoniau hael pob dydd*
*Am freintiau gloyw ein gwlad*
*A'r hawl i rodio'n rhydd.*
*O! llifed Dy haelioni Di*
*At bawb mewn angen trwom ni.*

Dyma ddyhead y Parchedig D. R. Thomas a ninnau fel diadell. Dyma ddyhead pob un ohonoch sydd yn y dyddiau hyn yn darllen *Yr Angor.* Derbyniwn yn hael a chawsom y cyfle mis Mai eleni i gyfrannu tuag at 'Cymorth Cristnogol' er mwyn gallu rhannu adnoddau'r ddaear mewn ffordd gyfartal i ddileu newyn, anghyfiawnder a thlodi er ceisio adeiladu byd tecach. Derbyniwn haelioni, rhoddwn haelioni. Diolch i Mrs Sian Hartley a Dr. John Williams am ofalu am y casgliad hwn trwy gylchlythyr a *zoom* y Cwis.

Er gwaetha'r cyfyngiadau i fethu cyd-addoli yn y capel bu darpariaeth i ni ar *zoom* i gael oedfa ar fore Sul, a seiat neu gyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol ar ddydd Llun. Mae ein diolch yn fawr i'r Parchedig Robert Parry a'r Parchedig D. Ben Rees yn arwain yr oedfaon, ac i Dr. Pat Williams a Mr Mike Farnworth am ofalu ein bod yn medru manteisio ar hyn ar *zoom*.

Bu farw Mrs Gwenda Mai Hughes ar yr 28ain o Ebrill yn Ysbyty Arrowe Park a chydymdeimlwn â Gareth a'r teulu ynghyd â'i ffrindiau oll yma ym Methel. Bu yn ffyddlon i'r holl fywyd Cymraeg ar y Glannau, a chafodd arwyl yn llawn gobaith.

Mae Mr. Ted Clement-Evans yn Ysbyty Broadgreen ar hyn o bryd a Miss Mair Powell yn Townsend Hub. Mae Mrs Nerys Vaughan Jones a'i mab Ian yn dal i wella. Cofiwn amdanynt yn ein gweddïau ynghyd â Mrs Louie Jones a Mr. Gwilym Lewis, y ddau yn gaethiwus.

Diolchwn i Mr. Meirion Evans a Mr. Idris Roberts am ofalu am y capel a'r adeiladau ynghyd â'r ardd yn ystod cyfnod y pandemig. Maent yno bob wythnos yn ddi-ffael.

## Eglwys Seion, Laird Strret, Penbedw

Anfonwn ein cyfarchion cynnes o Seion i ddarllenwyr *Yr Angor* gan fawr obeithio eich bod yn cadw'n iach a diogel.

Fel arfer rydwyf wedi cysylltu a holl aelodau Seion cyn anfon y rhifyn yma ac y mae pawb yn iawn ac mewn iechyd da ond ein aelod hynaf, yr annwyl Sarah Davies.

Mae Sarah wedi bod yn ei gwely ers dros fis erbyn hyn. Erbyn hyn mae wedi gwella ychydig ond yn dal yn wan iawn. Mae ei dwy ferch, Ann a Helen yn hynod ofalus ohoni ac yn edrych ar ei hôl ddydd a nos. Anfonwn ein cofion cynnes iawn ati gan ddymuno adferiad buan. Rwy'n sicir y byddwn yn meddwl amdani yn ein gweddiau.

Erbyn hyn rydym ar drothwy tymor yr haf a dyma bennill hyfryd gan Mathafarn (Dewi Jones)

*Cenwch im gan am ddyddiau'r haf,*
*Coed yn eu dail a thywydd braf,*
*Am adar cerdd ben bore bach,*
*Am wres yr haul ac awyr iach,*
*A chofiaf innau gan y gog*
*A llysiau'r hebog ar y glog.*


Erbyn hyn rydym yn cael llawer mwy o ryddid ac yn cael gwahodd teulu a ffrindiau i'n cartrefi a mis nesaf cawn fwy o ryddid ond mae'n rhaid i ni barhau i fod yn wyliadwrus er mwyn cadw'n ddiogel.

Cyn terfynu hoffwn ddweud cymaint o bleser yr wyf yn ei gael wrth ddarllen *Yr Angor* o fis i fis ac mae llawer iawn wedi dweud yr un peth wrthyf ac wedi ei ddarllen o glawr i glawr.

Diolch yn fawr i'r holl rai sydd yn anfon ysgrifau i mewn. Gwerthfawrogaf eich cyfraniadau diddorol ac addysgiadol.

Bob bendith a cadwch yn ddiogel.

# CORNEL Y TRYSORYDD



## GORFFENNAF 2021

| | |
|---|---|
| Rhodd Cymdeithas Cymry Lerpwl | £100.00 |
| Mr Gareth Roberts, Lerpwl | £12.50 |
| Mr Alun Roberts, Llundain | £12.50 |
| Mr Dewi Roberts, Crosby | £12.50 |
| Miss Elin Roberts, Llundain | £12.50 |
| Miss Margaret Roberts, Bethania | £10.00 |
| Miss Marian Prys Davies, Llandudno | £20.00 |
| Eleri a Robin Gwyndaf, Caerdydd | £30.00 |
| Mr John Thomas, Allerton | £50.00 |
| Mr a Mrs Alun Vaughan Jones, Childwall | £25.00 |
| Miss Hilda Lloyd, Rainhill | £25.00 |
| Miss Mair Jones, Childwall | £20.00 |
| Mrs Gwenfyl Bain, Mossley Hill | £25.00 |
| Mrs Morfydd Roberts, Abergele | £20.00 |
| Mrs Eryl Chitty, Gateacre | £25.00 |
| Mr a Mrs Meirion Evans, Allerton | £20.00 |
| Ymddiriedolaeth Dewi Sant, Lerpwl | £600.00 |
| Dr Arwel Roberts, Aughton | £50.00 |
| Mr David Williams (Karslake), Biggleswade | £61.00 |
| Mr a Mrs Eryl Edwards, Llanuwchllyn | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£1251.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# TARO POST AC E-BOST

**Y Parchedig Ivor Oswy Davies.**

*Annwyl Barchedig Athro D. Ben Rees,*

Llawer o ddiolch i chi am eich erthygl clodwiw am y diweddar Barchedig Ivor Oswy Davies. Roeddwn yn athro ifanc ar Lannau Merswy ar ddechrau'r chwedegau, a dyma'r tro cyntaf yn fy mywyd i mi sylweddoli fy mod yn gwrando ar wir ysgolhaig, a oedd yn dyfynnu Karl Barth a Brunner mor aml yn ei bregethau. Er yn ysgolhaig, yr oedd mor gartrefol yng nghwmni pobl gyffredin fel fi. Roedd yn weinidog ar fy niweddar wraig, Diana a'i chwaer Janet, yng Nghapel Belvedere Road, ble roedd eu Taid a Nain yn ofalwyr y capel. Y fo, hefyd, a'u derbyniodd yn gyflawn aelodau o Eglwys y Drindod, Princes Road, pan unwyd y tri capel. Fe'n priodwyd ganddo yn Chwefror, 1962, a chredaf y gweinyddodd ei briodas olaf ar Fedi 19fed, 1964 pan briodwyd chwaer Diana, sef Janet efo George, ychydig wythnosau cyn iddo farw. Cof da amdano, ac am Mrs Davies, Eleri, Valmai, Delyth a Helen, a'u collodd yn rhy fuan.

Yn gywir iawn, a chyda llawer o ddiolch,
Eddie Roberts,
20 Collen Wen,
Llanfairpwllgwyngyll.

*Annwyl Dr Rees,*

Gadewch i mi ddymuno'r gorau i chi ar eich ymddeoliad, wedi gwasanaeth cwbwl arbennig, anfesuradwy ei werth. Go brin bod unrhyw un wedi cyfrannu mwy dros yr achos Cristnogol Cymraeg ar dir Cymru na'r tu hwnt, ac os oes rhywun felly, diolcher amdano yntau neu hithau hefyd.

Cynigiaf hyn o gydnabyddiaeth;

***I ddymuno'n dda i'r Gweinidog Emeritws ar ei ymddeoliad wedi hir wasanaeth yn enw'i Arglwydd;***

*Iddo y bûm wrthi'n ddi-baid – gorffwysaf*
*ger ei ffas, caf ysbaid;*
*Rwyf fab ei lwyth, rwyf o'i blaid*
*yn ei degwch bendigaid.*

*Cofion cywiraf*
Owain Ellis Roberts

## GWLEDD ZOOM O LERPWL

zoom

**AR Y SUL**

**MEHEFIN:**
**Bore Sul, 6 Mehefin am 11 o'r gloch**
**Oedfa o dan ofal y Parch. Olaf Davies, Llandegfan, Môn.**

**Bore Sul, 13 Mehefin am 11 o'r gloch**
**Oedfa o dan ofal y Parch. Gwenda Richards, Caernarfon.**

**Bore Sul, 20 Mehefin am 11 o'r gloch**
**Oedfa o dan ofal y Parchedig Robert Parry.**

**Bore Sul, 27 Mehefin am 11 o'r gloch**
**Oedfa o dan ofal y Parchedig Robert Parry.**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

**<u>CYFRES</u> <u>NEWYDD</u>**

# MANCEINION DDOE A HEDDIW

## CAPEL HEYWOOD STREET

### Sefydlu Achos yn Heywood Street gan y Parchedig Eleri Edwards *(Rhan 1)*

**ADEILAD NEWYDD I GAPELI LEES ST AC OAK STREET**

Blwyddyn i'w chofio yn Eglwys Heywood Street oedd 1871 (yn ôl anerchiad y Jiwbili haner can mlynedd wedi hynny gan y Parch E. Wyn Roberts) oherwydd ym mis Awst y flwyddyn honno, symudodd yr Eglwys o Oak Street i adeilad newydd yn Heywood Street. Nifer y Cymunwyr ar y pryd oedd 174, cynhelid y gwasanaeth yn yr ysgoldy hyd nes yr agorwyd y flwyddyn ganlynol y capel.

Ac i ninnau cant a haner o flynyddoedd wedi iddynt ddechrau pennod newydd yn Heywood Street dyma ni Gymry Gofalaeth Gororau'r Gogledd yn dechrau ar bennod newydd hefyd gyda Gweinidog profiadol yn bugeilio dosbarth eang o Penbedw a Lerpwl i Fanceinion.

**Y WYRTH AR Y SUL AGORIADOL – MARY DAVIES**

Y digwyddiad mawr yn 1872 oedd cyfarfod agoriadol capel newydd Heywood Street, Cheetham. Dyma beth ddigwyddodd yn ôl yr hanes a ysgrifennwyd yn ddiweddarach.


*'Cymerodd digwyddiad lled hynod le, yn y gwasanaeth y bore. Perthynai i'r Eglwys hen chwaer dduwiol iawn oedd wedi ei hamddifadu o foddion gras ers gwth o amser oherwydd llesgedd corff a phellter ffordd i'r hen gapel yn Oak Street. Ond pan adeiladwyd y Capel Newydd, yr hwn oedd yn agos i'w chartref, penderfynnodd os cai fyw, fyned i addoli i'r Capel Newydd Sul ei agoriad. A chafodd ei dymuniad pennaf, a'r bore 'a hi a ddaeth trwy yr Ysbryd i'r Deml' a chan fod ei chlyw wedi ei amharu yn drwm hi a aeth ymlaen ac a eisteddodd yn y sedd agosaf i'r sedd fawr, er mwyn, os oedd yn bosib iddi, glywed y Pregethwr. A phan dechreuwyd y gwasanaeth 'ac yn ebrwydd ei chlustiau hi a agorwyd' a mawr oedd ei syndod a'i llawenydd a hi a glywodd yn eglur bob gair a lefarodd y pregethwr. Mor gyfaddas profiad Dafydd yn Salm 122, 'Llawenychais pan dywedent wrthyf, Awn i dŷ yr Arglwydd.' oedd testun y bregeth..a phan wedi cyrraedd ei nod, bore Mercher dilynol yn ei chwsg, ehedodd ysbryd Mary Davies at ei gwaredwr a phriodol ddywediad Seth y bachgen gwirion yn nofel Rhys Lewis 'Y mae hi bellach wedi mynd o Gapel bach Heywood Street ymhell bell i Gapel mawr Iesu Grist.'.*

**CWESTIWN MAWR I ARWEINWYR A CHYNULLEIDFA**

Pan y symudwyd o Oak street i Heywood Street, y cwestiwn pwysig oedd - a geid organ ai peidio? Teimlai'r tadau mai gwell oedd peidio, ond yr oedd yr ieuainc yn benderfynol i gael un a chafwyd cyfarfod brwd iawn i drin y mater a'r diweddar Ddr William James yn y gadair. Â'i graffter arferol, sylweddolodd y perygl ac apeliodd at yr ieuainc gan ddweud fod yna *'ddwy ffordd o gyfrif pleidleisiau: wrth eu rhif ac wrth eu pwysau. 'roedd y pwysau yn erbyn yr organ a'r rhif o'r blaid'*. Awgrymodd fel cyfaddawd fod lle yr organ i'w roddi ar flaen yr adeilad. Gwnaed siambr i'r organ yn y capel newydd a diflannodd y gwrthwynebiad ac ym mis Medi 1873, anrhegwyd Heywood street ag organ gan Dr Thomas.

**NODWEDDION CAPEL NEWYDD HEYWOOD STREET**

Yn ôl Adroddiad John Jones yn hanes yr Achos yn 1902 wrth sôn am nodweddion y capeli a oedd wedi ymuno i ffurfio Eglwys newydd Heywood Street dywedodd: Y peth mwyaf amlwg yn Lees Street, credwn ni, oedd **ysbryd cenhadol a bywyd ysbrydol crefydd**; y lle mawr a roddai ein tadau yr adeg honno i weddi a pherson yr Ysbryd Glân; gwelwyd gofal am y tlodion hefyd,. Yn Oak Street, ceid **cariad brawdol**, neu gellir dweud yn fwy cywir, gydraddoldeb ym mysg y frawdoliaeth ynghyd â grasau o ysbryd cenhadol wedi eu dilyn o Lees Street. Credaf fod y rhinwedd o **gydraddoldeb** yn aros gyda ni yn Heywood Street hyd heddiw mor bur ag y bu yn Oak Street erioed; a chredaf fod **cariad brawdol** yn burach gyda ni yn Heywood Street nag ydoedd yn Oak Street, ond ofnaf fod llai o ysbryd cenhadol yn ein mysg ni, rhagor ydoedd gyda'n tadau a'n mamau. Ond mae gyda ni un sefydliad rhagorol nad oedd gyda'r achos flynyddoedd yn ôl, sef **'The Christian Endeavour'** ein pobl ieuainc, ac mae ein cymdeithas lenyddol yn dal ei thir.



***Siamber Organ Heywood Street a'r Organ gyda'r organydd.***


**RHODDION**

**1877** – Cyflwynedig i Mr David Williams gan gyfeillion y Capel yn Heywood Street Manchester, yn codi oddi ar eu teimlad o barch tuag ato yn wyneb ei ymadawiad o'u plith ar ôl bod yn cyd-lafurio â hwy fel swyddog Eglwysig am 27 mlynedd. Dyn fyddlon, gweithgar a thangnefeddus ydoedd, ac ar 20 Mehefin derbyniodd ddeg o lyfrau yn cynnwys cofiannau, pregethau'r hoelion wyth, traethodau diwinyddol i'w astudio.. Yn 1927, cyflwynwyd y ***'Collection Mr John Williams Hale',*** gan y teulu, i Eglwys Heywood Street.

Llyfr arall a gafodd ei gyflwyno i Heywood Street yn 1927 oedd un a gyflwynwyd yn ystod y ganrif flaenorol i: ***Miss Ann Williams for improvement in her learning by the Congregation and friends of Oak Street Chapel at their Annual Tea Meeting January 1st 1850. Book 'The Mother at home: or The Principles of Maternal Duty' familiarly illustrated by Jacob Abbott. A New Edition Revised and Corrected. Preface by W.L. Newton Dated 1st May.*** Mae'n amlwg fod y llyfr defnyddiol hwn yn dal ar gael o'r we yn y flwyddyn 2021 o antique books.com!

**HYNT A HELYNT Y CAPEL YN HEYWOOD STREET**

**1884 -** Yn y flwyddyn 1884 mae Ysgol Sabothol Heywood Street yn cynnwys 60 o athrawon a 165 o blant. Nifer dda ar y Sul. Roedd yr achos yn ffynnu, ac erbyn 897 roedd Capel et yn cynnal Cymanfa Flynyddol y Pedair Eglwys gydag eglwysi Cymraeg Moss Side, Pendleton, a Higher Ardwick yn dod at ei



*Capel Methodistaidd Calfinaidd, Heywood Street, Manceinion*

gilydd ar Fawrth 19,20, 21. Y mater i ymdrin ag ef oedd Actau 11: 22, 23 sef: ***'Daeth yr hanes amdanynt i glustiau'r eglwysi oedd yn Jerwsalem ac anfonasant Barnabas allan i fynd i Antiochia. Wedi iddo gyrraedd a gweld gras Duw, yr oedd yn llawen, a bu'n annog pawb i lynu wrth yr Arglwydd o wir fwriad calon.'*** Parch J. J. Roberts, (Iolo Caernarfon), gweinidog Tabernacl, Porthmadog oedd i agor y mater, sef ***Egni Cristnogol: y rhwymedigaeth iddo, a'r prif amcanion i'w cyrraedd trwyddo.*** Roedd y testun wrth fodd y bardd bregethwr. Sylwaf fod yr achoson i gyd mewn llewyrch goludog yn mis Ionawr 1899. Ceid yng nghapel Heywood Street 219 o aelodau, yna yng nghapel Moss Side lle gweinidogaethai William James 398, yng nghapel Pendleton 190 a Higher Ardwick yn cyfrif 219 oedolion ar y llyfrau. Mae'n amlwg fod yna lawer o Gymry yn dod i'r ddinas i weithio ac ar y Sul a noson waith fynychu'r capeli.

**PROFIAD Y DIWYGIAD YM MANCEINION**

1904 – Yn adroddiad Heywood Street yn 1904 mae Anerchiad Swyddogion y Capel yn naturiol yn sôn am ddiwygiad: a gysylltir gyda glowr ifanc o Gasllwchwr, Evan Roberts. Dyma gyfeiriad arbennig at yr adfywiad crefyddol neilltuol a fu yn hynod o fendithiol i Gymry dros y ffin fel ag yng Nghymru ei hun. Gallwn ninnau fel Eglwysi dystio gyda gwir ddiolchgarwch i ni gael 'rhai defynnau i lawr' o'r cawodydd graslon a bendigedig hyn. Cawsom rai cyfarfodydd gweddi a'r eneiniad dwyfol i'w deimlo yn amlwg ynddynt, brodyr a chwiorydd ieuainc yn cymeryd rhan yn gyhoeddus ynddynt am y tro cyntaf erioed, gyda rhyw arddeliad mawr. Do, cawsom gyfarfodydd na welwyd eu tebyg yn Heywood Street erioed o'r blaen. Rhyw naws bendigedig i'w deimlo yn eu hawyrgylch a hwyl foliannus ynddynt, a chanu emynau 'Dyma gariad fel y moroedd' ac 'Ar ei ben bo'r goron' yn llenwi ein calonnau.

**GWEINIDOG A SWYDDOGION NEWYDD A'R GWEITHGAREDDAU**

Daeth y Parchedig E. Wyn Roberts yn 1907 i fod yn weinidog ar Gapel Heywood Street o'r flwyddyn hon tan 1921. Hefyd yn ym mis Mawrth daeth amser i adnewyddu ymddiriedolwyr y Capel yn Heywood Street 'in the township of Cheetham in the county of Lancashire'. Roedd 7 o'r bobl yn dal yn fyw o'r tro cyntaf y dewiswyd ymddiriedolwyr ym 1870 ac felly dewiswyd eraill a 'doedd dim newid ar ôl hynny hyd 1927.

Yn 1908 ar 25 Ebrill trefnwyd ffair gan y chwiorydd yn Eglwys Heywood Street er mwyn casglu arian at gyllid y capel fel y gwelir ar y tocynnau (isod).

Gwyddom fod y Gweinidog wedi bod yn ofalus o'i gyfrifoldebau o 1908 a 1919, a chofiwn y bu y Parch Ellis Wyn Roberts yn gaplan i'r bechgyn yn ystod y Rhyfel Mawr, fel fy nhaid innau. Profiad a'u marciodd am weddill eu bywydau.

*(i'w barhau)*

**PROCLAMATION**

*'Welch Fayre or Market ....when Fowles, Butter, Eggs, and Posies and manie other artikels will be solde by Ladyes from ye Principalitie costumed in ye manner of ye antient Britons ....Ye night of ye same date at 5.30 of ye same clocke a grand Banquet is to be holden at which Tea will be drunken and various daintie and wholesome cakes and pastries will be partaken of to be followed by much merriment and melodious musik an entire new playe written for ye occasion entitled 'Ye Women's First Parliament' Will be performed by ye sportive spinsters. No dogs can be permitted nor bachelors but such as are of good repute in ye towne. This token will permit ye bearere to attend to ye afternoone and evening entertainment. Sedan chairs may be left in ye yarde of ye chaple. .....Price for this Token 2 Shillings & 6 Pence.*

*~~ Mistress Sallie Gwylim will preside ~~.*

# CYMDEITHAS CYMRY BIRKENHEAD

Mae misoedd y feirws wedi cyfyngu aelodau'r Gymdeithas i wahanol rannau o Gilgwri ac ar wahan i alwadau ffôn, *'Yr Angor*', a llythyrau, nid yw'n cysylltiadau mor aml ag yr hoffem. Ond, mae newyddion trist yn hedfan yn gyflym, a thros y misoedd anodd hyn, llawer rhy aml. Gyda chalon drom eto, rhaid cofnodi i ni golli dau aelod annwyl a ffyddlon ym mis Ebrill sef, Nat Magee a Gwenda Hughes.

Bu farw Nat yn dawel yng nghartref y teulu gyda'i frawd Liam, (yn y Fali) a'i nai wrth ei ochr. Roedd teulu Magee yn cadw Siop gigydd yn y pentref, a'u gwreiddiau yn ddwfn yn mhridd yr Ynys. Wedi ei addysg yn lleol, ac yng Ngholeg Normal Bangor, daeth yn athro i Lerpwl yn 1960 a lletya gyda dwy ferch Gymreig. Yn ystod ei amser yn ysgol Matthew Arnold, a Granby Street, daeth i adnabod John Owen, ffrind oes, ac yntau hefyd yn mynychu ein cymdeithas. Symudodd Nat i ddysgu yn Llundain o 1996-98, cyn cael swydd yn Ysgol Arrowe Hill a Summerville, Wallasey, hyd at ymddeol. Priododd Jill yn 1977 a chartrefu yn Oxton. Ergyd drom oedd ei cholli yn frawychus o sydyn yn 2013. Bu Nat yn aelod talentog a ffyddlon o Undeb Gorawl Gymraeg, Lerpwl ers 1961, yn rhan arbennig i'r 'semi-chorus' dethol hyd ei benblwydd yn 80 yn 2015. Bu'n ffyddlon i'n Cymdeithas, a gwelsom fwlch ar ei ôl. Oherwydd y feirws, treuliodd lawer o'i amser yn gofalu am ei frawd, 95 oed, a'i iechyd yntau yn dirywio. Daeth y diwedd yn dawel a diboen, a chladdwyd Nat gyda'i annwyl Jill yn Bron y Nant, Mochdre ar Ebrill 28. Ffrind da, cerddor talentog, cyfaill hael, bonheddwr annwyl.

Ar yr un dyddiad, brawychwyd ni gyda'r newydd am farwolaeth Gwenda Hughes, Oxton gwraig Gareth, wedi gwaeledd byr. Bu'r ddau yn aelodau ffyddlon o'n Cymdeithas wedi iddynt gartrefu yn Oxton ac estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Gareth. Ganwyd Gwenda ym mis Mai 1941, yn Derwen, ger Corwen, yn ferch i Gruffydd a Sara Price; ei mam yn athrawes yn y pentref a'i thad yn ffermio. Addysgwyd Gwenda yn Brynhyfryd Rhuthun, a Choleg y Normal Bangor, cyn dod yn athrawes yn Lerpwl a Knowsley. Tra yn byw yn y ddinas, mynychodd Gwenda gyfarfodydd capel Heathfield Road, cartref ysbrydol er iddi barhau yn aelod yng nghapel Derwen. Priododd a Gareth yn 2005 a chartrefu yn Oxton yn 2007. Wedi i'r ddau ymddeol, hoffent deithio'r byd a mwynhau cymdeithasu gyda ffrindiau.

Roedd Gwenda yn ferch dawel, siriol gyda gwên barod, cymeriad hoffus ac annwyl. Oherwydd yr amodau presennol, cynhaliwyd yr arwyl cyfyngedig yn Landican ar Mai 24 o dan ofal y Parchedigion D. Ben Rees a Robert Parry.


*Cyflwyno*

# YR ATHRO T. GWYNN JONES
## (1871-1949)
### gan Dr. Pat Williams


Cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i eleni ganed bachgen o'r enw Thomas Jones ar fferm Gwyndy Uchaf, Betws-yn-Rhos, ger Abergele. Er mai am ychydig o fisoedd yn unig y bu'n byw yno, y cartref hwnnw ysbardunodd ddewis yr enw roedd am gael ei adnabod wrtho yn ddiweddarach, sef T. Gwynn Jones. Fel bardd y meddylir amdano yn bennaf, ond roedd hefyd yn newyddiadurwr, yn nofelydd, yn feirniad llenyddol, yn ieithydd, yn gyfieithydd, yn ysgolhaig ac yn gofiannydd dau o'i arwyr pennaf, Emrys ap Iwan a Thomas Gee.

Gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed, ond nid dyna ddiwedd ei addysg. Am fod ei deulu yn ddiwylliedig, darllenodd yn eang ac addysgodd ei hun mewn amrywiaeth o bynciau. Sylwyd ar ei allu gan bobl ddylanwadol a hybasant ef i barhau gyda'i addysg. Cafodd hyfforddiant mewn Lladin a Groeg a Mathemateg gan hen offeiriad er mwyn ei baratoi ar gyfer astudio yn Rhydychen ond fe'i llethwyd gan afiechyd a chollodd y cyfle i sefyll yr arholiad.

Pan oedd yn bedair ar bymtheg oed derbyniodd wahoddiad oddi wrth Thomas Gee i weithio ar *Y Faner*. Roedd eisoes wedi cyfrannu sawl cerdd o natur wleidyddol i'r papur hwnnw o dan nifer o ffugenwau gwahanol, ond rhoddodd y swydd gyfle iddo gyfrannu erthyglau ar feirniadaeth lenyddol yn ogystal ag




*Enillodd y Gadair yn 1902 gyda'i awdl 'Ymadawiad Arthur'*




*T. Gwynn Jones*

ysgrifennu'n helaeth ar faterion gwleidyddol a chymdeithasol, yn enwedig gormes y meistri tir, a fu'n achos i'w dad golli ei denantiaeth fwy nag unwaith. Yn 1894 symudodd i Lerpwl i weithio ar *Y Cymro* o dan olygyddiaeth Isaac Foulkes. Parhaodd i lenydda a chyfrannodd i'r papur nifer o straeon byrion a hefyd nofel a gyhoeddwyd fesul pennod. Ymhen dwy flynedd collodd ei iechyd a dychwelodd i Gymru, ond nid dyna ddiwedd ei gysylltiad â Glannau Mersi. Enillodd wobr am gyfieithu traethawd gan y gwleidydd a'r cenedlaetholwr Eidaleg, Guiseppe Mazzini, yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl 1900 ac roedd yn un o'r beirniaid a ddyfarnodd y gadair i Hedd Wyn yn Eisteddfod Penbedw 1917, ond fel heddychwr digyfaddawd cafodd ei gythruddo gan ragrith y gorymateb emosiynol i farwolaeth y bardd buddugol ar faes y gad gan y rhai oedd wedi bod yn annog dynion ifainc i ymladd dros eu gwlad.

Rhwng 1895 a 1905 bu'n gweithio fel newyddiadurwr yn Ninbych a Chaernarfon. Cyhoeddodd hefyd nifer o nofelau, ac er nad oes darllen arnynt bellach, buant yn 'gaffaeliad mawr i dwf a datblygiad y nofel Gymraeg', fel y dywed ei gofiannydd, Alan Llwyd, yn ei gyfrol ardderchog, *Byd Gwynn*. Yn wir, fel nofelydd ac nid fel bardd y cyfeiriwyd at T Gwynn Jones pan enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902 gyda'i awdl 'Ymadawiad Arthur', sydd yn drobwynt yn hanes barddoniaeth gaeth, gan osod safonau newydd i ymgyrraedd atynt. Serch hynny, nid oedd yn bresennol yn y seremoni, am ei fod yn westai ym mhriodas ei frawd yng nghyfraith ar y pryd. Rhoddodd yr achlysur teuluol hwn gyfle gwych iddo ddangos yn gynnil ei anghymeradwyaeth o'r Orsedd, a ystyriai yn ffug ac yn chwerthinllyd. Enillodd y gadair eto gyda'i awdl 'Gwlad y Bryniau' yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain 1909, ond er gwyched y ddwy awdl hyn, mae 'Madog' yn rhagori arnynt gyda'i neges gyfamserol am wrthuni rhyfel.

Oherwydd dirywiad yn ei iechyd yn 1906, treuliasai chwe mis yn yr Aifft ar gyngor meddygol i adnewyddu ei nerth. Wedi dychwelyd adref gweithiodd fel newyddiadurwr eto nes iddo gael ei benodi yn 1909 yn gatalogydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Nid oedd yn hapus yn y swydd honno ac er mawr orfoledd iddo fe'i penodwyd yn 1913 yn ddarllenydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Aberystwyth a'i ddyrchafu maes o law yn Athro. Mae'n gamp ddiamheuol fod bachgen na chafodd fawr o addysg gyfundrefnol wedi dod yn ddigon dysgedig drwy ei ymdrechion ei hun i gael ei ddisgrifio gan Yr Athro Gruffydd Aled Williams fel 'un o ffigurau mwyaf gwareiddiad Cymraeg yr ugeinfed ganrif.'




*Cyfrol ardderchog gan ei gofiannydd, Alan Llwyd*

## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**
Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021.

We are so grateful for List 14 as we had received by 30 May 2021 the sum of £7,025. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in late summer of 2021.

**List 1: £550; List 2: £450; List 3: £200;**

**List 4: £420; List 5: £510; List 6: £185; List 7: £150;**

**List 8: £350; List 9: £325; List 10: £70; List 11: £145;**

**List 12: £670; List 13: £2,050; List 14: £50**

### LIST FOURTEEN (1/5/2021 i 30/5/2021)

1) Dr. Arthur Thomas & Mrs Ann Thomas,
Allerton, Liverpool, the sum of ...........................................£50

**Total / Cyfanswm ..............................£50.00**

So we have reached the sum of £7,125.

***With your help we have reached the goal, but we need to launch the volume, so we will keep the appeal open for the time we have agreed on.***

***Can you please send your donations to Merseyside Welsh Heritage Society / Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

**<u>Cofio Un o Gymry America</u>**

## THOMAS EILIAN WILLIAMS (1891-1926)

Masnachwr llwyddiannus ac un o Gymry mwyaf adnabyddus America oedd T. E. Williams. Ganwyd ef yn Nhŷ Moel Uchaf, Llaneilian, Môn, 22 Gorffennaf 1891; mab ydoedd i Hugh a Catherine Williams. Gadawodd Fôn yn fachgen ifanc i weithio yn ardal y Glasgoed, Penisarwaen, Arfon. Ymfudodd oddi yno i Mount Vernon, Washington, U.D.A. yn 1905, ac aeth ymlaen i Spokane, Washington. Bu wedi hynny yn Bulle, Mont. am rai blynyddoedd.

Yr oedd ei frawd yn ffermio yn Saskatechwan yn y cyfnod hwn, a thorrodd ei iechyd i lawr. Gan na feddai deulu aeth Eilian yno i ofalu amdano ac i weithio ar y fferm, a pharhaodd yn ffyddlon iddo hyd ei fedd. Yna aeth yn ôl i'r Unol Daleithiau a thua 1920 aeth i Seattle, Washington. Yn 1923 prynodd fusnes yn Mount Vernon a daeth yn fasnachwr llwyddiannus dros ben a phoblogaidd yn y gymdogaeth. Bu yno yn dra ymdrechgar mewn byd ac eglwys, a bu'n flaenor a thrysorydd cymeradwy iawn.

Yr oedd yn Gymro mawr hyd y diwedd, yn cyfrannu'n helaeth at fudiadau Cymreig, ac yn flaenllaw yng Nghymdeithasau Cymry America. Priododd yn Awst 1922 â Mary Ellen Jenkins, unig ferch Mr a Mrs Lewis Jenkins, Seattle, Washington. Yn 1925 ganwyd iddynt eu hunig blentyn, a bu farw 26 Chwefror 1926 a chladdwyd ef ym mynwent Washells.

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484 aerontynycefn@gmail.com*

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

- **Rhifyn Awst/Medi 2021** erbyn bore Iau, 1 Gorffennaf 2021 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com

- **Rhifyn Hydref 2021** – erbyn bore Mercher, 1 Medi, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Mercher.

- **Rhifyn Tachwedd 2021 –** erbyn bore Gwener, 1 Hydref 2021, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/7/2021.**

# GWRANDO AR CARADOG PRICHARD Y NOFELYDD

***gan D. Ben Rees***

Dyma un o'r llenorion Cymraeg sydd yn haeddu ei gadw mewn cof gennym o hyd ac o hyd , gan fod ei nofel, Un Nos Olau Leuad yn un o'r nofelau gorau sydd gennym yn ein llenyddiaeth.. Yn wahanol i aml i lenyddiaeth arall yng ngwareiddiad Ewrop , nid oes gennym draddodiad o'r Nofel, ar wahân i'r meistri fel Daniel Owen, T. Rowland Hughes, Islwyn Ffowc Elis, Emyr Humphries a Alun Jones. Nofelwyr un nofel oedd y gweddill, o Tegla a T Glynne Davies i Caradog Prichard, dyweder o *Gŵr Pen y Bryn a Marged* i *Un Nos Olau Leuad*.

Pobl mewn afiechyd blin yw dau o'n nofelwyr pwysicaf, Daniel Owen a T. Rowland Hughes, neu bobl sydd yn hen gyfarwydd ag ysgrifennu o ran galwedigaeth yw'r gweddill fel Tegla ac Islwyn Ffowc Elis. Gweinidogion yr Efengyl oedd llawer ohonynt yn yr hen ddyddiau fel Gwilym Hiraethog a John Thomas (Lerpwl) y ddau, a disgwylid i weinidogion Anghydffurfiol, gan eu capeli, i ymlafnio mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Teimlai'r capeli yn hynod o falch pan fyddai eu Bugail yn ennill y Goron neu'r Gadair neu'r Fedal Ryddiaith, neu'n paratoi cyfrolau difyr, doniol fel y gwnaeth Emlyn Richards a Harri Parri. Ychydig o'r rhain a enwais a adawodd inni unrhyw esboniad personol am yr awch oedd ynddynt i lenydda yn Gymraeg. Ni ddisgwylid i weinidogion capeli Saesneg nac enwadau Seisnig fel yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig neu yr Eglwys Babyddol i gynhyrchu beirdd,






***Caradog Prichard***

llenorion na nofelwyr. Fel arall oedd hi yng Nghymru.

Newyddiadurwr ar bapur enwog y *Daily Telegraph* oedd swydd pob dydd Caradog Prichard (1904-1980). Trigai mewn rhan hyfryd o Lundain, sef yn St John's Wood, a'i briod oedd Mati Prichard (merch o Gilfach Goch a gartrefodd yng Nghaerdydd), gwbl adnabyddus o fewn cenedl y Cymry yn y pump a'r chwe degau y ganrif ddiwethaf. Bu yn ystyried sefyll dros y Blaid Ryddfrydol yn etholaeth Arfon, ond rhoddodd y gorau i'r syniad, er iddi gael ei henwebu, ymhell cyn i'r Etholiad Cyffredinol ddod heibio. Hen Dori traddodiadol oedd Caradog, wedi colli ei ben ar y teulu brenhinol, ac yn perthyn i'r teuluoedd hynny ym Methesda a fethodd ddal pwys a gwres y dydd ar hyd Streic y Penrhyn dros gyfnod o dair blynedd, a chael eu galw yn 'fradwyr.'

Disgwylid iddo baratoi llawer o ddeunydd y papur dyddiol fel golygydd nos. Swydd ddiflas oedd honno i'r mwyafrif o newyddiaduron, gan ei bod hi'n ofynnol iddynt dreulio oriau'r nos wrth ei ddesg! Ac ym mis Ionawr 1964, anfonodd lythyr o 7 Carlton Hill, St John's Wood i'w gefnder, William John, ym mhentref Deiniolen yn dweud ei fod ef yn brysur dros ben, nid yn barddoni (ac fel bardd yr adnabyddid ef) ond yn 'ceisio sgrifennu nofel Gymraeg.' Cyfaddefai mai tasg anodd ydoedd, oherwydd fod yn rhaid 'aros nes daw'r hwyl sgrifennu. Un anodd iawn i'w dal yw hwyl, a phan ddaw, rhaid neidio iddi fel peiriant.'

Dyna'r safbwynt traddodiadol amaturaidd. Gyda llenor llawn amser, mater o ddisgyblaeth yw hi. Rhaid eistedd wrth y ddesg erbyn 9.30 a dal ati hyd 12.30, yna ail-ddechrau o 1 i 4, a chyda'r nos o 6.30 hyd 8.00 o'r gloch. Pwysig yw sylweddoli fod Caradog Prichard yn fwy cartrefol yn sgrifennu yn iaith ei febyd nag yn iaith y papur pwysig dyddiol sydd yn bwydo'r gwleidyddion Torïaidd fel Boris Johnson. Hoffaf ei gyffes wrth ei gefnder:

*'Credaf y gallaf ddweud mai fy mhrif bleser yw ysgrifennu Cymraeg, a phe cawn i'r modd a'r hamdden, 'wnawn i ddim byd arall. 'Does gen i ddim diléit o gwbl mewn ysgrifennu yn Saesneg, er mai Saesneg sy'n talu'r rhent. Ac os y ca' i riteirio rywdro, 'sgrifenna' i'r un gair yn Saesneg'. (2)*

Cofier fod hyn yn ddweud pwysig yng ngoleuni'r deyrnged a dalwyd iddo gan Peter Eastwood, Chelmsford, Golygydd y *Daily Telegraph*, pan y bu farw'r bardd a'r llenor ym 1980:

*'A shining star in that elite band of men who knew that newspapers are made at night, and the sub-editors are always there at night to put them together, and he put the latest news into the next edition.. As a poet, he was on a plane I could not reach, especially in his own native Welsh; as a journalist he was supreme, and I was proud to have been counted among his friends and colleagues for many years.'*

Ond fel aml i lenor, cyfaddefa Prichard fod ysgrifennu yn peri poen emosiynol a meddyliol iddo. Dyma'i gyffes:

*Pan fo rhywun yn mynd ati i sgrifennu'r nofel neu awdl neu bryddest, mae gofyn rhyw ddisgyblaeth anghyffredin i setlo i lawr iddi.*

Digon gwir. Rhaid cael digon o gymhelliad a gobaith gweld y gwaith gorffenedig yn y siopau llyfrau. Ond yn aml, sgrifennai farddoniaeth er mwyn y

wobr, y gymeradwyaeth ar lwyfan yr Eisteddfod, y fuddugoliaeth dros feirdd eraill. Cafodd fodd i fyw o ennill tair coron yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac un cadair. Fel Dewi Emrys, medrai ennill mwy na hynny pe caniateid iddo, a bu'n rhaid newid y rheolau oherwydd y ddau greadur flamboyant.

Cydnabydda fod diwinyddiaeth wedi bod yn llyffethair iddo wrth lunio ei nofel, yn arbennig broblem yr Ymgnawdoliad a'r Atgyfodiad. Nid oedd yn hyddysg yn y credoau, ac er ei fagwraeth fel Eglwyswr ym Methesda, llaciodd afael ar fynychu'n gyson yr Eglwys Esgobol yn Llundain (er bod digon o Eglwysi Esgobol Cymraeg yn Llundain) pan oedd wrthi yn hel atgofion am ei 'blentyndod crefyddol' ym mro'r chwareli.

Gofidiai adeg ysgrifennu ei nofel odidog iddo fynd dros ei ben a'I glustiau yn un o Gymry alltud go iawn. Soniai yn un o'i lythyron i'w gefnder yn Chwefror 1964 am y darn sy'n dwyn y teitl, *Alltudion*. Ni ddylem anghofio y darn graenus hwn o ryddiaith ar y Cymry alltud o'i ysgrifbin:

*'Byddwn yn sôn yn ddigon ysgafn am y Cymry alltud, ond y gwir amdani yw fod pob un ohonom sydd wedi gadael bro'i gynefin yn alltud yn ystyr lawn a chreulonaf y gair. 'Waeth pa mor fydol-lwyddiannus fyddom, 'waeth pa mor hapus yn ein bywyd teuluol, pobl yn byw dan benyd alltudiaeth ydym. Ac mae'r dyheu a'r hiraeth am y cynefin yn ein cnoi yn ddistaw bach yn feunyddiol, er weithiau heb inni bron wybod ei fod yno. Ac mae'r gerdd y soniais amdani yn rhoi y mynegiant go rymus i'r dolur distaw yma.'*

Campwaith o ryddiaith sydd yn mynegi yr ing a deimlodd ef o orfod gadael bro ei febyd am ddinas fawr, gosmopolitan fel Llundain. Chwipia ei hunan am iddo droi yn alltud, ond nid oedd dewis ganddo:

*'Pam gebyst y buom ni mor affwysol o ffol a gadael erioed am y twll niwlog a gwenwynig ei awyr a elwir Llundain, lle nid yw bywyd yn ddim ond un ras-llygod-mawr feunyddiol. 'Dwn i ddim!'*

Byddai'r genhedlaeth bresennol o Gymry ifanc Llundain yn gwrthod ei brotest gan eu bod yn dymuno byw a gweithio yno. Yn wahanol i'r mwyafrif o'r alltudion, mynnodd Caradog gael ei gladdu ym mynwent Coetmor, Bethesda, ar ôl gwasanaeth yn Eglwys Glanogwen. Pan fu ef farw ar 25ain Chwefror, 1980 o gancr, collodd byd llyfrau Cymraeg un a gyfranodd gampwaith o nofel, er na fu erioed - hyd y gwn i - yn rhan o'r sefydliad llenyddol Cymraeg.

***YSGRIF GOFFA***

# Mrs GWENDA MAI HUGHES
## (1941-2021)
# PENBEDW

**Bylchwyd y Gymdeithas Gymraeg ar y Glannau yn ymadawiad Gwenda Hughes, a fu farw yn Ysbyty Clatterbridge ar ôl gwaelodd o rai wythnosau a hynny ar Ebrill 28, 2021. Un o ferched Dyffryn Clwyd ydoedd, o bentref Derwen, yn ferch i Gruffudd a Sarah Margaret Price. Cofiwn ei rhieni yn dda gan iddynt fyw i oedran teg, a chyfarfyddais ei mam fwy nag unwaith. Bu'r ddau ohonynt farw o fewn dyddiau i'w gilydd. Cafodd Mrs Price ddamwain yn y cartref ac fe'u cludwyd i gartref gofal i ddod dros y cwymp. Ond ychydig ar ôl hynny yn ei ofid bu farw ei phriod, ac ar ôl clywed y newydd, newidiodd holl agwedd Mrs Price ac o fewn wythnos daeth yr alwad iddi hithau.**

**Ni fu neb yn fwy gofalus o'i rhieni a bu'r ddau gynhebrwng o fewn dyddiau i'w gilydd. Magwyd Gwenda Mai mewn awyrgylch gariadus, gymdogol Gymreig, a chafodd ei addysg foreol yn Ysgol Gynradd Derwen, ac yn un ar ddeg oed fe'i derbyniwyd yn Ysgol Brynhyfryd yn nhref Rhuthun.**

**Dangosodd ddiddordeb yn ei haddysg gan benderfynu dilyn bywyd athrawes ac fe'i derbyniwyd i Goleg Normal Bangor lle y gwnaeth ffrindiau da, nifer ohonynt fel hithau a ddaeth i Lerpwl fel athrawon. Ym mis Medi 1961 dechreuodd ar ei gyrfa a'i chyfnod ar y Glannau, a bu yn affaeliad mawr fel athrawes mewn nifer o ysgolion. Gorffennodd ei gyrfa yn Ysgol Knowsley. Cymerodd ddiddordeb yn y bywyd Cymraeg ac yr oedd yn gefnogol i gapel Bethel, Heathfield Road ar hyd y blynyddoedd.**

**Deuthum i'w hadnabod yn dda gan iddi ymuno gyda'r pererindodau a drefnwn i wledydd tramor, a byddai wrth eu bodd yn tynnu lluniau ac yn profi bywyd y wlad. Cawsom daith gofiadwy i Seina, ac i Beijing a Shanghai ac i weld rhyfeddodau y wlad honno.**

**Bu Gwenda yn ffrindiau da gyda'r cerddor medrus Gareth Hughes, un o fechgyn Cwm Penmachno, un arall a symudodd i Cilgwri yn 1961. Cyfarfu'r ddau am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol y Fflint yn 1969, ond blynyddoedd lawer ar ôl hynny, daeth y ddau yn fwy na ffrindiau, yn gariadus, ac yn naturiol fe glosiwyd at ei gilydd mewn partneriaeth. Priododd y ddau ar 10 Mai 2005 ac yn fuan symudodd Gwenda o'i chartref yn Gateacre i gartref newydd yn Orchard Gate ger Manor Road ym Mhenbedw. Yr oedd y cyfan yn ddelfrydol gan fod chwaer Gareth, Ennis yn byw yn ymyl, a bu hynny yn gymorth mawr pan ddaeth hi yn dymor y brofedigaeth. Daliodd Gwenda i yrru trwy'r twnel i Bethel a bob tro y gwasanaethwn byddwn yn ei gweld, hi a'i ffrind da Carys Jones yn eistedd gyda'i gilydd yn y cysegr. Deuai yn aml i gyfarfyddiad a gynhelid gan y Gymdeithas Lenyddol neu gan Cymdeithas Cymraeg Lerpwl. Byddent fel cwpwl yn cefnogi Cymdeithas Cymraeg Penbedw gan ddotio at ddawn Gareth y cerddor.**

**Bu'r arwyl ar bnawn Llun, Mai 24 2021 yn Amlosgfa Landican o dan fy ngofal ac yn cael cynorthwy y Parchedig Robert Parry. Dymunai Gwenda fod y dôn *Ellers* yn cael ei chwarae yn yr arwyl, a braf oedd clywed gweinidog newydd y Glannau yn dwyn cysur wrth chwarae y dôn, yn ogystal ar dôn *Gwahoddiad* wrth gerdded i fewn i'r cysegr yn Amlosgfa Landican ac yn ystod y gwasanaeth daeth miwsig *Calon Lân* i'n swyno. Roedd yr ymadawedig yn gwireddu geiriau Gwyrosydd:**

***Gofyn wyf am galon hapus***
***Calon onest, calon lân.***
***Calon lân yn llawn daioni***
***Tecach yw na'r lili dlos***
***Does ond calon lân all ganu***
***Canu'r dydd, a chanu'r nos.***

**Roedd yr oedfa yn odidog gan fod y Gymraeg yn cael ei gorseddu a chydymdeimlwyd yn ddwys gyda'i phriod yn ei hiraeth dirdynnol, gyda'r chwaer-yng-nghyfraith Ennis ac eraill o'r teulu, Dafydd a Lynda o Gwyddelwern, Janet a Megan o Ddinbych a'r dringwr enwog o Dremadog, Eric Jones, arwr i mi gan fod fy ŵyr Joshua yn meddu ar yr un diddordeb, dringo'r creigiau a'r mynyddoedd.**

**Diolchwn am fywyd a gwaith Gwenda Mai Hughes, yn addysgu cenhedlaethau o blant, ac y mae gan ddinas Lerpwl a'r dinasoedd o amgylch ddyled fawr, fel ag y mae ganddynt hwythau ddyled i'r Gorfforaeth am ei apwyntio i'r swyddi pan nad oedd lleoedd ar gael o fewn Cymru.**

***D. Ben Rees***

# LLYN LLANGORS



Dyma yr unig lyn naturiol o unrhyw faint a welir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n fillir o hyd ac ar un adeg bu ei dyfroedd o ddiddordeb arbennig i naturiaethwyr, am ei fod yn llawn o blanhigion a phryfetach ac o ganlyniad yn gyrchfan i adar. Deil yr elyrch i fwynhau'r dyfroedd ond ciliodd llawer o'r gogoniant wrth i'r cychod darfu ar yr amgylchedd.

Yn ôl yr arbenigwyr, mae'r llun yn gamarweiniol. Cyflea'r llun lyn sydd yn goron y parc, ond yn ôl William Condry, 'llyn sydd yn marw ydyw' a'r unig feddyginiaeth iddo yw rhaglen a fyddai'n ail greu ddoe a'i amgylchiadau.

Tyrra'r moduron, llawer ohonynt yn hebrwng cychod, trwy Talgarth a thrwy bentref Trefeca. Yno yn Nhrefeca yn y ddeunawfed ganrif yr oedd Howel Harris, y diwygiwr Methodistaidd Calfinaidd (1714-1773), ac un eneidiau mawr creadigol cenedl y Cymry, yw byw. Trefeca-fach oedd mangre ei eni ac yn y cylch yma y treuliodd ei oes. Bu'n athro yn ysgol Llanfihangel Tal-y-llyn, a gwyddai'n dda am Lyn Llangors, neu, a rhoi ei enw arall, Llyn Syfadden yn Llangasty, meca pysgotwyr pentrefi a threfi y Bannau.

---